**Dyddiad:** Dydd Mercher 1 Mai 2002
**Lleoliad:** Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd
**Teitl:** Strategaeth ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru

## Diben

1. Diben y papur hwn yw rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ganlyniad gwaith Grwp Ymgynghorol a sefydlais yn y Gwanwyn y llynedd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Strategaeth ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru. Gwahoddir y Pwyllgor i wneud y canlynol:

- Gwneud sylwadau ar Adroddiad y Grwp Ymgynghorol (Atodiad A);
- Trafod y casgliad y daethpwyd iddo, sef y dylid herio Llywodraeth y DU i ariannu a gweithredu Gofal Personol am Ddim o drethiant cyffredinol a thrwy fudd-daliadau a pholisi etifeddu;
- Nodi y bydd ymgynghori eang ar yr adroddiad ar ôl y Ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Mai, a hynny hyd ddechrau Awst;
- Nodi y bydd Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Pobl Hyn, a'i Gynllun Gweithredu, yn cael eu drafftio erbyn diwedd Tachwedd, yng ngoleuni ymatebion y rheini yr ymgynghorir â hwy yn eu cylch, a byddant yn cael eu hanfon at y Pwyllgor cyn eu cyhoeddi.

## Y Cefndir

2. Dros y ganrif ddiwethaf, mae cyfran y boblogaeth sy'n 50 oed a throsodd wedi dyblu. Dros yr 20 mlynedd nesaf, bydd y boblogaeth gyffredinol yn parhau'n weddol sefydlog ond bydd nifer y bobl sydd o oed ymddeol yng Nghymru yn cynyddu 11 y cant i 650,000. Bydd nifer y bobl hen iawn (85+) yng Nghymru yn cynyddu dros draean i 82,000. Erbyn 2020, bydd bron yr un nifer o bobl yn eu chwedegau a throsodd â'r nifer yn eu hugeiniau a'u tridegau. Bydd y newidiadau demograffig hyn yn newid cydbwysedd y boblogaeth yn sylweddol. Daw cyfleoedd a her yn sgil hyn ac mae'n golygu bod yn rhaid i bolisïau a rhaglenni Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y dyfodol adlewyrchu anghenion cymdeithas sy'n heneiddio. Bydd pobl yn byw bywydau cynyddol hwy ac iachach ond bydd angen gofal, cefnogaeth a gwasanaethau sy'n fwy personol ac integredig arnynt, ar adegau allweddol. Bydd tueddiadau cymdeithasol fel patrymau byw teuluol sy'n newid, llai o blant a nifer cynyddol o bobl sengl yn cael effaith fawr.

3. Yng Ngwanwyn 2001 cyhoeddais bod Grwp Ymgynghorol yn cael ei sefydlu, dan Gadeiryddiaeth Dr Brian Gibbons, i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Strategaeth ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru. Roedd arbenigwyr o sawl maes ar y Grwp Ymgynghorol gan gynnwys 4 o bobl hyn, a chyfarfuasant 11 o weithiau.

Yn sail i'r broses o ddatblygu ei adroddiad, rhoddwyd gwybodaeth i'r Grwp ar ganfyddiadau adolygiadau o ymchwil a wnaed eisoes ar bobl hyn, cyfraniadau gan 'eiriolwyr pynciau penodol', a lluniwyd rhaglen

ymgynghori helaeth gan gynnwys grwpiau ffocws, cynhadledd, sesiynau Pwyllgorau Rhanbarth a holiadur. Mae'r rhaglen hon wedi cynnwys dros 1,000 o bobl i gyd yng Nghymru. Yn y Ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar Gynllun y GIG ym mis Chwefror 2001, derbyniais welliant gan Blaid Cymru i ymrwymo'r Cynulliad i gynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgor ar ganlyniadau Gofal Personol am Ddim yng Nghymru, yng nghyd-destun datblygu'r Strategaeth. Ymestynnwyd cylch gwaith y Grwp Ymgynghorol i gynnwys yr adolygiad hwn.

**Adroddiad y Grwp Ymgynghorol**

4. Mae copi o Adroddiad y Grwp Ymgynghorol, sef "When I ‘m 64.. and More" i'w weld yn Atodiad A i'r papur hwn. Mae'r adroddiad yn gwneud dros 100 o argymhellion i wella gwasanaethau ar gyfer pobl hyn ac mae'n delio â materion eraill sy'n gysylltiedig â'u lles, er mwyn rhoi arweiniad i'r Cynulliad a chyrff statudol eraill ddatblygu polisïau a chynlluniau yn y dyfodol a fydd yn adlewyrchu'r ddemograffeg a'r amgylchiadau cymdeithasol sy'n newid.

5 Mae argymhellion y Grwp Ymgynghorol yn eang eu cwmpas, yn ymestyn ar draws cyfrifoldebau'r Cynulliad ac maent hefyd yn cwmpasu rhai materion sydd heb eu datganoli. Ymhlith y cynigion sy'n debygol o gael sylw pan gyhoeddir yr adroddiad mae:

- ystyried yr achos dros Gomisiynydd Pobl Hyn yng Nghymru

- dylid penodi un o Weinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Weinidog Pobl Hyn
- sefydlu Pwyllgor Pobl Hyn ar lefel wleidyddol i weithio ar draws holl feysydd cyfrifoldeb y Cynulliad
- sefydlu Fforwm Partneriaeth Pobl Hyn parhaol newydd ar lefel genedlaethol
- datblygu Tasglu yng Nghymru sy'n cael ei ariannu ac sy'n cynnwys pobl hyn ar lefel leol er mwyn cynyddu eu cyfraniad i'r gymuned

- dylai Llywodraeth y DU ystyried sut y gellid datblygu'r cysyniad o "oedran hawl" yn hytrach nag oedran ymddeol, h.y. yr oedran pan fydd gan bobl hawl i fudd-daliadau ymddeol, ond nad yw'n gorfodi unigolyn i ymddeol pan fydd ef neu hi'n dymuno parhau i weithio, ac yn gallu gwneud hynny

- gwaith ymchwil a gwerthuso i nodi lefel ac amrywiaeth yr anghenion nas diwellir wrth ddarparu gofal cymdeithasol i bobl hyn ac ystyried opsiynau o ran sut y gellid mynd i'r afael â'r diffyg ar fyrder

- herio Llywodraeth y DU i ariannu a gweithredu gofal personol am ddim yng nghyd-destun trethiant, budd-daliadau a pholisi etifeddu'r DU

- datblygu rhaglen ymchwil a datblygu benodol ar heneiddio fel sail i well dealltwriaeth o bobl hyn a'u pryderon ac er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi

6. Ni all yr adroddiad ymrwymo Llywodraeth Cynulliad Cymru i gymryd unrhyw gamau ar hyn o bryd. Cyngor ydyw i'w ystyried ac i ymgynghori arno wrth ddatblygu ein Strategaeth a'n Cynllun Gweithredu ein hunain. Mae prif naratif yr adroddiad yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau'r rhaglenni ymchwil ac ymgynghori mewn penodau sy'n ymwneud â phrif gamau heneiddio – o heneiddio iach, egnïol i gyfnod o ddibyniaeth.

Gwahoddir Aelodau'r Pwyllgor i gyflwyno sylwadau cychwynnol ar adroddiad y Grwp Ymgynghorol er y byddwn yn croesawu cyfraniadau manylach ysgrifenedig yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ar ôl ymgynghori, bydd Strategaeth a Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu paratoi a'u cyflwyno i'r Pwyllgor i'w trafod.

**Gofal Personol am Ddim**

7. Argymhellodd y Comisiwn Brenhinol ar Ofal Tymor Hir, a gyflwynodd adroddiad ym mis Mawrth 1999, y dylid diddymu taliadau am ofal nyrsio a gofal personol yn y DU yn gyffredinol. Roedd adroddiad y Comisiwn Brenhinol yn glir y dylid ategu costau gofal o drethiant cyffredinol drwy ychwanegu 0.3% at y 2.2% o refeniw treth yr amcangyfrifir a oedd yn cael ei wario ar y pryd ar ofal tymor hir ar gyfer pobl hyn ledled y DU. Ni dderbyniodd Llywodraeth y DU yr argymhelliad hwn. Roedd yn pryderu am gostau uchel a chynyddol polisi o'r fath a hefyd y byddai'r budd-daliadau yn mynd i nifer bach o bobl gymharol well eu byd a'u hetifeddion, heb wneud unrhyw beth i wella'r gofal a roddir i'r 7 o bob 10 preswylydd sydd yng nghartrefi gofal y DU, y mae eu costau gofal yn cael eu talu'n llwyr ag arian cyhoeddus.

8. Yn Lloegr, mabwysiadodd yr Adran Iechyd, yn lle hynny, yr argymhelliad a wnaed yn adroddiad lleiafrifol y Comisiwn Brenhinol ynghylch ymestyn darpariaeth am ddim i ofal nyrsio ond dim pellach. Cyflwynodd y trefniadau hyn ym mis Hydref 2001. Cyflwynasom hefyd ofal nyrsio am ddim o 3 Rhagfyr 2001 gan gytuno i ystyried canlyniadau Gofal Personol am Ddim fel rhan o'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hyn. Yn yr Alban, bydd Gweithrediaeth yr Alban yn cyflwyno gofal personol am ddim, fwy neu lai, yn unol ag argymhellion y Comisiwn Brenhinol, ym mis Gorffennaf 2002 am gost o £125m. Mae Gogledd Iwerddon yn bwriadu cyflwyno gofal nyrsio am ddim o fis Hydref eleni ac mae'n bwriadu ystyried goblygiadau polisi gofal personol am ddim.

9. Yn ogystal, cymerwyd camau ar draws y DU i gyflwyno mesurau er mwyn lliniaru'r prawf modd a lleihau'r pwysau ar bobl i werthu eu cartrefi i dalu am ofal preswyl. Yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Mawrth 2002, addawais gynnal adolygiad o'r terfynau cyfalaf ar gyfer profion modd.

10. Rhoddodd y Grwp Ymgynghorol ar Strategaeth ystyriaeth i adroddiad trosolwg gan yr Uned Polisi Strategol ac adroddiad technegol a gomisiynwyd gan yr Athro David Bell o Brifysgol Stirling, a nododd gost polisi gofal personol am ddim yng Nghymru. Bydd yr adroddiadau hyn ar gael i'r cyhoedd erbyn 1 Mai er mwyn cynorthwyo trafodaeth y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rhagdybiaeth ganolog dadansoddiad yr Athro Bell yw y byddai'r polisi yn costio £67.5m ar unwaith yng Nghymru, gan godi i £130m erbyn 2021, pe bai prisiau'n aros yn gyson. Ond mae cryn ansicrwydd am beth fyddai'n digwydd yn ymarferol, yn enwedig i ba raddau y byddai rhoi gwasanaethau am ddim yn cynyddu'r galw amdanynt ac yn cynyddu'r costau ac y byddai gofal anffurfiol yn disodli gofal ffurfiol (y telir amdano). Mae'r Athro Bell wedi llunio rhagdybiaeth o'r costau uchaf posibl sef £87m, gan godi i £181m erbyn 2020. O dan reoliadau presennol yr Adran Gwaith a Phensiynau (nad ydynt wedi newid i ddarparu ar gyfer polisi gofal personol am ddim yr Alban), ni thelir Lwfans Presenoldeb i'r rheini sydd mewn gofal preswyl, sy'n derbyn cymorth tuag at gostau gofal personol o gronfeydd cyhoeddus eraill. Yn ymarferol, byddai £14m o gost gofal personol am ddim yng Nghymru yn mynd i dalu am golli'r lwfans. Byddai hyn yn arbed arian i'r Adran Gwaith a Phensiynau ond yn gost a ddeuai o gyllideb y Cynulliad Cenedlaethol. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i gyflwyno Gofal Personol am Ddim yng Nghymru.

11. Trafododd y Grwp Ymgynghorol y mater hwn ar sawl achlysur. Argymhellodd y Grwp y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru dderbyn argymhellion y Comisiwn Brenhinol yn ffurfiol a herio Llywodraeth y DU i ariannu a gweithredu gofal personol am ddim yng nghyd-destun trethiant, budd-daliadau a pholisi etifeddu'r DU yn unol â bwriad y Comisiwn Brenhinol. Cydnabu'r Grwp Ymgynghorol y byddai symud tuag at bolisi gofal personol am ddim yma, pe na bai'r sefyllfa yn Lloegr yn newid, yn dwyn goblygiadau ariannol mawr yn ei sgil. Byddai triniaeth fwy hael, tebyg i'r hyn a geir yn Lloegr, yn galw am arian o gyllideb y Cynulliad a byddai'n cystadlu â galwadau eraill am adnoddau. Daeth y Grwp i'r casgliad, hyd yn oed pe bai'n bosibl canfod adnoddau o'r fath, yng ngoleuni'r nifer cymharol fach a fyddai 'n elwa, byddai'n anodd rhoi mwy o flaenoriaeth i ofal personol am ddim nag argymhellion eraill a wnaed ganddo i wella gwasanaethau ar gyfer pobl hyn yn gyffredinol.

**Yr Amserlen a'r Camau Nesaf**

12. Mae'r amserlen ar gyfer cymryd camau pellach yn sgil adroddiad y Grwp Ymgynghorol fel a ganlyn:

- mae crynodeb o Adroddiad y Grwp Ymgynghorol yn cael ei anfon at bob pwyllgor pwnc arall fel "papur i'w nodi" er mwyn adlewyrchu natur drawsbynciol adroddiad y Grwp Ymgynghorol;
- bydd trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar Strategaeth y Person Hyn a Gofal Personol am Ddim yn cael ei chynnal ar 16 Mai;
- ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar adroddiad y Grwp Ymgynghorol hyd ddechrau Awst;
- llunio Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru i'w ystyried gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol cyn diwedd Tachwedd.

**Jane Hutt**

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Enw Cyswllt:** Steve Milsom, yr Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol, est 3206